

DATGANIAD

ADDYSG Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

Mae'r datganiad yma wedi cael ei ddatblygu yn dilyn adolygiad o ddarpariaeth ac arfer addysg y blynyddoedd cynnar o fewn ac ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin.

Bydd y datganiad hwn yn ymdrin â'r materion canlynol-

1. Derbyn plant i ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar o fewn ysgolion cynradd
2. Darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar yn Sir Gaerfyrddin a mynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar mewn rhai rhannau o Sir Gaerfyrddin

Derbyn plant i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o fewn ysgolion

Mae tystiolaeth o holiaduron, ymweliadau ag ysgolion a dadansoddi data yn cadarnhau bod anghysondeb ar draws ysgolion wrth weithredu Polisi Derbyn y Cyngor Sir.

Mae derbyn plant i ysgolion yn cael ei reoli gan yr **Awdurdod Derbyn**. Mae'n rhaid i rieni wneud cais am le mewn ysgol drwy'r Adran Derbyniadau. Mae proses ymgeisio ar-lein sy'n sicrhau bod ceisiadau'n cael eu rheoli a'u trin yn deg a bod y meini prawf y cytunwyd arnynt yn cael ei ddefnyddio wrth ddelio gyda sefyllfa lle mae mwy o geisiadau nag o leoedd.

Ni all ysgol wrthod cais am le yn yr ysgol. Os oes mwy o geisiadau nag o leoedd bydd y rhieni yn cael eu hysbysu a'u cynghori am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Mae Panel Annibynnol yn delio ag apeliadau derbyniadau.

Mae'r Polisi fel a ganlyn (o'r *Llyfryn Gwybodaeth i Rien* 2016-17) –

Faint Fydd Oed Plant Yn Dechrau'r Ysgol?

Beth yw'r Blynyddoedd Cynnar?

Mae Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn ddarpariaeth anstatudol sydd ar gael i blant 3 oed a bydd yn rhaid gwneud cais am le mewn ysgol h.y. ar gyfer categorïau (i) a (ii) isod, i'r Awdurdod Derbyn erbyn y dyddiad cau-gweler yr Amserlen Cyflwyno Cais.

Ble mae addysg ran amser i'w chael?

Mae gan bob plentyn 3 oed yr hawl i gael 10 awr yr wythnos am ddim, mewn lleoliad cofrestredig, trwy'r Grŵp Hawliau Bore Oes a hynny o'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Mae'r Cyngor yn caniatáu i ddarparwyr nas cynhelir ddefnyddio adeiladau ysgolion lle bo hynny'n ymarferol.

Mae sawl math o ddarpariaeth:-

- i. Ysgol Feithrin - Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin yn y Sir.
- ii. Dosbarthiadau Meithrin/Blynyddoedd Cynnar mewn Ysgolion Cynradd neu Ysgolion Babanod
- iii. Darpariaeth gan y sector nas cynhelir sy'n bartneriaid yn y Grŵp Hawliau Bore Oes, e.e. Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru (CDCC), Mudiad Meithrin a darparwyr preifat. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn adran Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin yn y ddogfen hon.

Pryd y gall plentyn ddechrau addysg ran amser?

Fel rheol, derbynnir plant i ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar mewn ysgolion sy'n ei chynnig, **ar sail ran amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd.**

Nid oes gan rieni hawl i apelio os na chynigir lle i'w plentyn yn eu dewis lleoliad blynyddoedd cynnar.


Ni fydd gan blentyn y cynigir lle rhan amser iddo/iddi mewn ysgol, hawl awtomatig i barhau i dderbyn addysg amser llawn. Mae'n rhaid cyflwyno cais ffurfiol i'r Awdurdod Derbyn cywir- gweler yr amserlen derbyn.

Mae'n ffaith bod gan ddisgyblion hawl i **addysg ran-amser** o ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Mae 'rhan-amser' yn cael ei ddiffinio fel naill ai 5 sesiwn bore neu 5 sesiwn prynhawn neu gymysgedd o 5 sesiwn bore/prynhawn

Bydd hawl gan ddisgyblion i fynychu yn llawn amser ar ddechrau'r tymor cyn eu 4ydd pen-blwydd- h.y.

- ym mis Medi ar gyfer y rhai sydd wedi eu pen-blwydd yn 4 rhwng Medi 1af a 31 Rhagfyr;
- ym mis Ionawr ar gyfer y rhai sydd wedi eu pen-blwydd yn 4 rhwng Ionawr 1af a 31 Mawrth;
- ym mis Ebrill ar gyfer y rhai sydd wedi eu 4ydd pen-blwydd rhwng Ebrill 1af a 31 Awst.

Felly yn Sir Gâr-



CAMAU GWEITHREDU- er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch i bob ysgol a phob disgybl

1. Byddwn yn adolygu'r cyllid ar gyfer holl blant 3 oed mewn ysgolion a dim ond yn darparu gwerth 0.5 o'r cyllid fesul disgybl ar gyfer y ddau dymor cyntaf.
2. O'r **1af o Ebrill, 2017** bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro cydymffurfiad â'r polisi hwn yn gadarn.
3. Os nad yw ysgol yn cydymffurfio â'r polisi, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried y sancsiynau canlynol
 - Ni fydd unrhyw ddisgybl sy'n ymddangos ar rôl ysgol ac nad yw wedi cael ei dderbyn gan yr Adran Derbyniadau'n cael ei ariannu.
 - Bydd yn rhaid i ddisgybl sy'n ymddangos ar rôl ysgol ac nad yw wedi cael ei dderbyn gan yr Adran Derbyniadau wneud cais am lle yn yr ysgol. Os nad oes lle ar gael bydd yn rhaid i'r rhieni i chwilio am ysgol arall.
 - **Os bydd ysgol yn derbyn disgyblion 3 oed yn llawn amser yn ystod eu dau dymor cyntaf yn yr ysgol, bydd yr Awdurdod Lleol, wrth ail-redeg y gyllideb, yn lleihau cyllid yr ysgol yn ôl gwerth llawn y disgybl.**

Darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar yn Sir Gaerfyrddin a mynd i'r afael â diffyg darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar mewn rhai rhannau o'r sir.

Mae gan bob plentyn yng Nghymru'r hawl i ddarpariaeth addysg y Blynyddoedd Cynnar o ansawdd da, rhan amser ac am ddim, mewn lleoliad blynyddoedd cynnar wedi ei gymeradwyo, o ddechrau'r tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd cyn cael mynediad llawn amser i ysgol. Mae 'rhan amser' yn cael ei ddiffinio fel o leiaf deg awr yr wythnos am tua'r un nifer o wythnosau â'r flwyddyn ysgol arferol.

Gall lleoliad wedi ei gymeradwy fod naill ai yn lleoliad 'a gynhelir', sef dosbarth meithrin mewn ysgol, neu leoliad 'nas cynhelir', a allai fod yn gylch chwarae neu feithrinfa ddydd preifat. Mae pob lleoliad yn cael eu cofrestru gan yr Awdurdod Lleol (ALI) i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar.

Ar hyn o bryd mae addysg y blynyddoedd cynnar yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei gyflwyno drwy ddull cymysg; mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir.

Cafodd adolygiad o ddarpariaeth ac ymarfer y blynyddoedd cynnar o fewn ysgolion Sir Gaerfyrddin ei gwblhau gyda'r bwriad o sicrhau tegwch o ran mynediad i bob plentyn a chefnogi gwella canlyniadau i bob dysgwr.

Ceisiodd yr adolygiad werthuso manteision ac anfanteision darpariaeth bresennol blynyddoedd cynnar Sir Gaerfyrddin a nodi cyfluniad gwell.

Cyflwynodd yr Adolygiad ystod o fodelau y gellid eu defnyddio i ailddiffinio strwythur addysg y blynyddoedd cynnar gan ystyried y goblygiadau o ran newid y system bresennol a'r amser sydd ei angen i weithredu newidiadau.

Y dewis a gefnogwyd yr Awdurdod Lleol oedd y byddai pob ysgol yn darparu blynyddoedd cynnar ddarpariaeth addysgol. Fodd bynnag, oherwydd yr hinsawdd economaidd a lleihau cyllidebau nad yw hynny bellach yn ymarferol.

Byddwn felly yn-

1. Cynnal y dull economi gymysg, lle mae darpariaeth addysgol y blynyddoedd cynnar yn cael ei gyflwyno gan ysgolion a lleoliadau nas cynhelir.
2. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gydag ysgolion/sector nas cynhelir ar fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth.
3. Fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg, bydd yr ALI yn ystyried pob prosiect unigol a datblygu arfarniad o opsiynau o ran gofynion darpariaeth addysgol blynyddoedd cynnar. Gallai ymatebion gynnwys-
 - Y sefyllfa sydd ohoni
 - Creu gofod o fewn yr ysgol newydd/wedi'u hailfodelu ar gyfer darpariaeth addysgol blynyddoedd cynnar a ddarperir gan bartner nas cynhelir.
 - Sefydlu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn yr ysgol sy'n cael ei reoli gan yr ysgol.